UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Tâl a Phensiynau

# Ymddeoliad a'ch Pensiwn

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Ymddeoliad a'ch Pensiwn

Mae pedwar math o ymddeoliad:

- ymddeoliad ar sail tor-iechyd sydd ar gael i unrhyw oedran os oes tystiolaeth feddygol na fyddai'n bosibl i chi barhau i ddysgu
- ymddeoliad cynnar os terfynir eich cyflogaeth gan eich cyflogwr oherwydd diswyddo gorfodol ar sail gormodedd (*redundancy*) neu er mwyn effeithiolrwydd y gwasanaeth; mae hwn ar gael i athrawon dros 55 yn unig
- ymddeoliad cynnar i rai rhwng 55 a'r Oed Ymddeol Arferol; mae'r pensiwn yn yr achos yma yn cael ei leihau'n actiwaraidd - gweler y Daflen Wybodaeth Pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd
- ymddeoliad ar sail oedran

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag ymddeol ar sail oedran. Gweler y daflen wybodaeth Ymddeoliad Cynnar am fwy o fanylion am y mathau eraill o ymddeoliad.

## Cynllun Pensiwn Athrawon

Gweinyddir y Cynllun Pensiwn Athrawon gan *Teachers' Pensions*. Bydd pob athro, llawn neu ran-amser, yn cael eu cynnwys yn y cynllun oni bai eu bod yn dewis eithrio (*opt out*) er mwyn gwneud trefniadau pensiwn gwahanol. Mae llawer o fanteision i'r Cynllun Pensiwn Athrawon a byddai UCAC yn cynghori unrhyw athro i ystyried oblygiadau eithrio yn drylwyr cyn penderfynu gwneud hynny.

Nid yw asiantaethau yn talu cyfraniadau at y Cynllun Pensiwn Athrawon felly nid yw gweithio drwy asiantaeth yn cyfrannu at flynyddoedd o wasanaeth ar gyfer y cynllun pensiwn.

I'r rhai sydd wedi bod yn talu i'r cynllun ers cyn 2007, ac oedd yn 53 oed neu fwy ar 1 Ebrill 2015, mae'n gynllun 'cyflog terfynol' sy'n sicrhau talpswm a phensiwn rheolaidd wedi'i gysylltu â'r Mynegrif Prisiau Defnyddwyr (*Consumer Price Index*). Mae'r trefniadau ar gyfer athrawon iau yn wahanol, ac mae'n bwysig cysylltu gyda Teachers' Pensions i dderbyn y wybodaeth berthnasol.

Mae'r cynllun hefyd yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar a budd-daliadau tor-iechyd, yn ogystal â budd-daliadau marwolaeth a budd-daliadau i ddibynyddion a phartneriaid.

Rydych yn gymwys i dderbyn budd-daliadau pensiwn ar ôl cyflawni un o'r canlynol:

- 2 flynedd o wasanaeth pensiynadwy unrhyw bryd ar ôl 5 Ebrill 1988
- 2 flynedd o wasanaeth pensiynadwy unrhyw bryd os oeddech mewn gwasanaeth pensiynadwy ar 6 Ebrill 1988
- cyfanswm o 5 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy ar unrhyw adeg

Os yn bosib, dylech wneud cais am bensiwn i *Teachers' Pensions* tua phedwar mis cyn dyddiad eich ymddeoliad. Serch hynny, byddai *Teachers' Pensions* yn gwneud pob ymdrech i brosesu cais pryd bynnag y daw. Mae ffurflenni pwrpasol ar gael ar wefan *Teachers' Pensions*. Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno cais. Telir pensiynau'n fisol, fel arfer ddiwrnod cyn dyddiad eich pen-blwydd.

Ar hyn o bryd, mae pensiwn athrawon wedi'i seilio ar y cyflog cyfartalog a hyd y gwasanaeth (nifer y blynyddoedd a diwrnodau). Y **cyflog cyfartalog** yw'r gorau o'r canlynol:

- cyfartaledd cyflog pensiynadwy'r tair blynedd olynol orau yn ystod y deng mlynedd galendr diwethaf o wasanaeth; ailasesir cyflogau'r blynyddoedd hyn yn unol â'r Mynegrif Prisiau Defnyddwyr (*CPI*)
- y cyflog pensiynadwy a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf cyn dyddiad yr ymddeoliad

Gall fod cyfyngiad ar y cyflog cyfartalog pe byddai'r cyflog wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod cyn ymddeol.

Mae'r Oed Ymddeol Arferol yn naill ai 60 neu 65 mlwydd oed neu'n hŷn, yn dibynnu pryd yr ymunoch chi â'r cynllun.

Os ydych yn aelod newydd i'r Cynllun Pensiwn dan y trefniadau Cyfartaledd Cyflog (career average), eich oed ymddeol arferol yw 65 neu eich oedran derbyn pensiwn gwladol, pan bynnag un yw'r hynaf.

Mae hawl i ymddeol cyn hynny, o 55 mlwydd oed ymlaen, ond byddai hynny ar bensiwn gostyngol. Gweler Taflen Wybodaeth: Pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd am fwy o fanylion.

## Aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon cyn Ionawr 2007

Yr **Oed Ymddeol Arferol** i athro a oedd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Athrawon cyn Ionawr 2007 yw 60 ond mae gennych yr hawl i barhau i

ddysgu y tu hwnt i hynny. Ar eich ymddeoliad byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol sydd yn drethadwy ynghyd â thalpswm sy'n ddi-dreth.

Dyma sut i gyfrifo'ch pensiwn a'ch talpswm:

- rhannwch eich cyflog cyfartalog ag 80
- lluoswch yr ateb â nifer y blynyddoedd a'r dyddiau o wasanaeth

Dyma fydd eich pensiwn blynyddol. Bydd eich talpswm yn dair gwaith eich pensiwn blynyddol.

Mae'n bosib dewis cymryd mwy o dalpswm, hyd at 25% o werth eich cronfa bensiwn, gan dderbyn llai o bensiwn blynyddol. Am bob £12 ychwanegol at y talpswm, byddech yn derbyn £1 yn llai o bensiwn.

Dyma'r fformiwla ar gyfer cyfrifo **uchafswm y talpswm** y gellir ei gymryd:

$$\frac{\textbf{(pensiwn x 20) + (talpswm x 20/12)}}{\textbf{4.6667}}$$

**Enghraifft: athro'n ymddeol ar gyflog o £36,756 gyda 35 mlynedd o wasanaeth:**

$$\frac{36756 \times 35}{80} = 16080.75$$

felly £16,080.75 fyddai'r pensiwn blynyddol;
byddai'r talpswm yn deirgwaith y swm hwn, sef **£48,242.25**

**Ond gellid cael mwy fel talpswm:**

$$\frac{(16080.75 \times 20) + (48242.25 \times 20/12)}{4.6667} = 86146.26$$

felly gellid cymryd talpswm o hyd at **£86,146.26**;

ond o gymryd yr uchafswm talpswm byddai'r pensiwn blynyddol yn gostwng i **£12,922.08**

## Aelodau newydd o'r Cynllun Pensiwn Athrawon o Ionawr 2007 ymlaen

Yr **Oed Ymddeol Arferol** i athro sydd wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 1 Ionawr 2007 ymlaen yw 65. Ar eich ymddeoliad byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol. Gallwch hefyd dderbyn talpswm sy'n ddi-dreth, os dymunwch, ond bydd hyn yn arwain at lai o bensiwn.

Dyma sut i gyfrifo'ch pensiwn a'ch talpswm:

- rhannwch eich cyflog cyfartalog â 60
- lluoswch yr ateb â nifer y blynyddoedd o wasanaeth

Dyma fydd eich pensiwn blynyddol. Mae gyda chi'r hawl i gael talpswm drwy leihau eich pensiwn hyd at 25% o werth eich cronfa bensiwn. Gelwir hyn yn **'Cymudo Pensiwn'**. Am bob £1 o ostyngiad yn eich pensiwn byddwch yn derbyn £12 fel talpswm.

Dyma'r fformiwla ar gyfer cyfrifo **uchafswm y talpswm** y gellir ei gymryd:

$$\frac{\textbf{pensiwn x 20}}{\textbf{4.6667}}$$

**Enghraifft: athro'n ymddeol ar gyflog o £36,756 gyda 35 mlynedd o wasanaeth:**

$$\frac{36756 \times 35}{60} = 21441.00$$

felly **£21,441.00** fyddai'r pensiwn blynyddol.

**Ond byddai hawl i gymudo rhan o'r pensiwn i sicrhau talpswm**

$$\frac{21441 \times 20}{4.6667} = 91889.34$$

felly gellid cymryd talpswm o hyd at **£91,889.34**; ond o gymryd yr uchafswm talpswm byddai'r pensiwn blynyddol yn gostwng i **£13,783.55**

## Gwasanaeth cyn ac ar ôl Ionawr 2007

I'r athrawon hynny a oedd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn cyn Ionawr 2007 ac sy'n parhau i weithio neu sydd wedi ailymuno â'r cynllun ar ôl 1 Ionawr 2007 wedi cael toriad mewn gwasanaeth o lai na phum mlynedd, dylid defnyddio'r dull cyntaf o gyfrifo'r pensiwn.

I'r athrawon hynny a oedd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn cyn Ionawr 2007 ond sydd wedi cael toriad mewn gwasanaeth o fwy na phum mlynedd ac sydd wedi ailymuno â'r cynllun ar ôl 1 Ionawr 2007, dylid defnyddio'r ddau ddull uchod o gyfrifo'r pensiwn. Dylid defnyddio'r dull

cyntaf ar gyfer y gwasanaeth hyd at Ionawr 2007 a'r ail ddull ar gyfer y gwasanaeth wedi hynny.

### Ymddeoliad Graddol (*Phased Retirement*)

Ymddeoliad graddol yw pan fyddwch yn derbyn peth pensiwn ond yn parhau i weithio)

Wedi cyrraedd 55 mlwydd oed gallwch gymryd ymddeoliad graddol heb doriad yn eich gwasanaeth cyn belled â bod eich cyflog pensiynadwy'n gostwng 20% neu fwy am o leiaf 12 mis.

Cyfrifir y gostyngiad mewn cyflog trwy gymharu â'ch cyflog cyfartalog dros y chwe mis blaenorol. Gallwch gymryd hyd at 75% o'r pensiwn sy'n ddyledus i chi yn y modd yma. Gallwch ddefnyddio'r dewis hwn ddwywaith cyn ymddeol cyn belled â bod gostyngiad o 20% y naill dro a'r llall.

Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, oherwydd eich bod wedi symud i swydd gyda llai o gyfrifoldebau neu oherwydd eich bod yn gweithio llai o oriau. Byddwch yn parhau i gyfrannu tuag at eich Cynllun Pensiwn Athrawon o'r cyflog y byddwch yn dal i'w ennill. Byddai'n rhaid i chi drafod y trefniant ymlaen llaw a chael cefnogaeth eich cyflogwr.

Os byddwch yn derbyn unrhyw bensiwn dan y cynllun hwn cyn i chi gyrraedd eich Oed Ymddeol Arferol yna byddai gostyngiad actiwaraidd yng ngwerth y pensiwn.

### Cyfraniadau Ychwanegol

Mae sawl dull o gynyddu'ch pensiwn trwy dalu cyfraniadau ychwanegol:

- talu i gynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (*Additional Voluntary Contributions* neu *AVCs*) penodol i athrawon gyda chwmni Prudential
- talu i gynllun cwmni arall (*Free Standing Additional Voluntary Contributions*)
- talu i gynllun rhanddeiliad (*Stakeholder Pension*) neu gynllun pensiwn personol
- prynu pensiwn ychwanegol drwy'r Cynllun Pensiwn Athrawon

Cofiwch y byddwch hefyd yn derbyn **Pensiwn Gwladol** (os ydych yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol) pan fyddwch yn cyrraedd yr oedran priodol. Dros y blynyddoedd nesaf bydd yr oedran ar gyfer derbyn y Pensiwn Gwladol yn codi i 66 erbyn Hydref 2020 ac i 68 erbyn 2046.

## Cynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (*AVCs)*

Mae telerau arbennig ar gyfer athrawon wedi'u sicrhau gan gwmni Prudential ond gall athrawon drefnu i dalu cyfraniadau ychwanegol gyda chwmni arall o'u dewis.

Buddsoddir yr arian gan y cwmni a bydd gwerth y buddiannau y byddwch yn eu derbyn yn dibynnu ar werth y buddsoddiadau pan fyddwch yn ymddeol.

Bydd hawl gennych i ddechrau tynnu pensiwn o gynllun *AVC* cwmni Prudential yr un pryd ac y byddwch yn dechrau derbyn eich pensiwn athrawon. Gall y rheolau fod yn wahanol ar gyfer cynlluniau cwmnïau eraill.

Mae'r penderfyniad i dalu i gynllun *AVC* yn un sy'n rhaid i'r unigolyn ei wneud wrth ystyried amgylchiadau personol.

**Ni all UCAC gynnig arweiniad ar fanteision neu anfanteision gwneud hynny ond byddem yn eich cynghori i geisio barn ymgynghorydd ariannol annibynnol.**

## Ychwanegu at eich pensiwn drwy'r Cynllun Pensiwn Athrawon

Rydym yn eich cynghori i wirio gydag ymgynghorydd ariannol annibynnol cyn cynyddu eich cyfraniad pensiwn drwy dalpswm neu gyfraniadau misol, i sicrhau na fyddwch yn croesi'r trothwy a ganiateir ar gyfer taliadau blynyddol i'r pensiwn, sef y Lwfans Blynyddol.

Gellir sicrhau budd-daliadau uwch o'r Cynllun Pensiwn Athrawon drwy brynu unedau pensiwn ychwanegol. Mae hyn yn disodli'r drefn flaenorol o 'brynu blynyddoedd ychwanegol' (*past added years*).

- Gellir prynu pensiwn ychwanegol fesul unedau gwerth £250 y flwyddyn o bensiwn ychwanegol hyd at gyfnod o 20 mlynedd, naill ai trwy dalpswm neu trwy daliadau misol rheolaidd
- Rhaid bod yn dal mewn cyflogaeth bensiynadwy ac o dan Oedran Ymddeol Arferol cyn y gellir prynu pensiwn ychwanegol; ni ellir prynu pensiwn ychwanegol wedi i chi ymddeol
- Gellir prynu naill ai budd-daliadau personol yn unig neu fudd-daliadau personol ac ar gyfer dibynyddion; ni ellir prynu budd-daliadau ar gyfer dibynyddion yn unig
- Ni thelir talpswm yn awtomatig ond gellir dewis ildio hyd at 25% o'r pensiwn ychwanegol er mwyn sicrhau talpswm; byddech yn derbyn

£12 o dalpswm am bob £1 o bensiwn blynyddol a fyddai'n cael ei ildio

- Mae cost prynu pensiwn ychwanegol yn uchel ac yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis oedran, eich rhyw a'r math o fudd-daliadau y dymunir eu sicrhau; nid yw'n seiliedig ar ganran o'r cyflog; mae cyfrifiannell ar wefan *Teachers' Pensions* sy'n amcangyfrif y gost

## Lwfans Gydol Oes

Dilëwyd y rheol na all athro gyfrannu mwy na 15% o'i g/chyflog tuag at gynlluniau pensiwn. Yn lle hynny sefydlwyd Lwfans Gydol Oes (*Lifetime Allowance*) sy'n cynnwys cyfanswm gwerth holl gronfeydd unrhyw gynlluniau pensiwn a fyddai gan athro - y Cynllun Pensiwn Athrawon, unrhyw gynllun pensiwn o gyflogaeth arall, *AVC* neu bensiwn ychwanegol a brynwyd, ond nid y pensiwn gwladol.

Maint y lwfans ar gyfer 2020/21 yw £1,073,100. Mae'r lwfans wedi'i rewi ar y lefel hon tan fis Ebrill 2026.

Yn gyffredinol, golyga'r newid gynnydd yn faint o arian y gall athrawon ei neilltuo ar gyfer prynu mwy o bensiwn. Mae gan *Teachers' Pensions* fformiwla ar gyfer amcangyfrif faint y gall athro wario ar ychwanegu at ei bensiwn. Nid yw'n debygol y bydd y mwyafrif llethol o athrawon yn cyrraedd trothwy Lwfans Gydol Oes.

## Cyngor Pellach

Mae'r daflen hon yn egluro sut mae'r 'hen' Gynllun Pensiwn Athrawon yn gweithio.

Daeth Cynllun Pensiwn Athrawon 'newydd' i fodolaeth ar 1 Ebrill 2015. Golyga hyn bod gan lawer o athrawon ddau gynllun pensiwn ac mae'r wybodaeth ar ein gwefan dan eitem newyddion 'Pensiynau Athrawon' (https://bit.ly/38jh7Xc) yn egluro'r dewisiadau pensiwn sydd gan athrawon.

**Ni all UCAC gynnig cyngor i unigolion ar fanteision unrhyw gynllun penodol iddyn nhw'n bersonol. Mae UCAC yn cynghori aelodau i drafod eu sefyllfa benodol gyda pherson cymwys megis Ymgynghorydd Ariannol Annibynnol.**

## Gwasanaeth ymgynghori ariannol annibynnol i aelodau UCAC

Cred UCAC fod cael mynediad at gyngor ariannol annibynnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i aelodau wrth iddynt gynllunio tuag at eu dyfodol. Gallwch gysylltu gydag UCAC os ydych am dderbyn manylion cyswllt cwmnïau perthnasol.

***Nid yw UCAC yn gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir gan gwmni ymgynghori ariannol annibynnol.**

## Gwybodaeth bellach

Mae Teachers' Pensions yn cynhyrchu cyfres o daflenni a ffurflenni sydd ar gael ar eu gwefan www.teacherspensions.co.uk. Gellir defnyddio cyfrifiannell ar y wefan i amcangyfrif faint o bensiwn neu faint o dalpswm y gallech ei gael dan wahanol amgylchiadau.

Rhif y llinell gymorth yw 0345 6066 166.

Gweler hefyd Taflenni UCAC:

- Pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd
- Ymddeoliad cynnar
- Trosglwyddo i'r Cynllun Pensiwn Athrawon newydd

**I gael unrhyw gyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu â:**

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Is-ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Awst 2021**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru